# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 20 Medi 2016

Amser: 08.30 - 09.03

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC<br>Jane Hutt AC<br>Simon Thomas AC<br>Paul Davies AC<br>David J Rowlands AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Nathan Gill AC<br>Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Roedd Nathan Gill AC yn bresennol yn y cyfarfod, yn unol â RhS 11.5(iii).

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Byddai’r Prif Weinidog yn gwneud datganiad ar y Rhaglen Lywodraethu ddydd Mawrth.

Byddai Plaid Cymru yn defnyddio'r amser a neilltuwyd i gynnal dwy ddadl 30 munud ddydd Mercher.

Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ar ddydd Mawrth yn digwydd ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer ar ddydd Mercher.

### 3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 28 Medi 2016 –**

- Datganiad gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar agwedd y Pwyllgor at ei gylch gorchwyl, a sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru (30 munud)

**Dydd Mercher 12 Hydref 2016 –**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

*Dadl Aelod Unigol: Dewis y Cynnig ar gyfer y Ddadl*

- Dewisodd y Pwyllgor Busnes 2 gynnig ar gyfer dadl.

**Dydd Mercher 28 Medi 2016**

- **NNDM6088**

  **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

  **Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

  **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**

  **Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

  Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
  Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud penderfyniad i fynd i'r afael â TB buchol drwy ymrwymo i ddefnyddio'r dulliau mwyaf effeithiol o reoli a dileu TB buchol a sicrhau bod y profion a'r cyfyngiadau symud yn gymesur â statws y clefyd mewn ardal.

**Dydd Mercher 12 Hydref 2016**

- **NNDM6089**

  **Lee Waters (Llanelli)**

  **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

  **Huw Irranca-Davies (Ogwr)**

  **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**

  Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

  1. Yn cydnabod amryfal fanteision iechyd a lles gweithgareddau corfforol.

  2. Yn nodi mai dim ond 35 y cant o blant Cymru sy'n cael yr awr o weithgareddau corfforol a gaiff ei argymell sydd ei angen arnynt bob dydd.

3. Yn cydnabod potensial Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 i godi lefelau gweithgareddau corfforol ymysg pob grŵp oedran.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu'n llawn â chymunedau i ganfod y llwybrau newydd a fyddai'n cysylltu cyrchfannau lleol ac a fyddai fwyaf tebygol o gael defnydd da.

## 4 Pwyllgorau

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gynnig lle i Nathan Gill ar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Cynigiodd UKIP ildio ei le ar y Pwyllgor fel bod ei faint yn aros yr un fath.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i adolygu'r Rheolau Sefydlog ar y diffiniad o grŵp, yn enwedig mewn perthynas ag Aelod yn gadael neu'n cael ei atal o grŵp, a'r berthynas gyda'r Pwyllgor Busnes.

## Unrhyw Fusnes Arall

### *Amser ar gyfer Llefarwyr*

Hysbysodd y Llywydd yr Aelodau o'i bwriad i ganiatáu dim ond dwy funud i lefarwyr i wneud eu sylwadau rhagarweiniol yn dilyn datganiad, cyn iddynt ddod at gwestiynau. Ni fydd cloc y Siambr yn cael ei osod ar gyfer pob Aelod, ond bydd y Llywydd yn ymyrryd os nad yw Aelod yn dod at gwestiynau ar ôl dwy funud.

### *Aberfan*

Hysbysodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes am ei bwriad i wahodd arweinwyr y pleidiau a Dawn Bowden AC (Merthyr Tudful a Rhymni) i wneud cyfraniad ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn ar 19 Hydref, ynghyd â munud o dawelwch, i nodi 50 mlynedd ers Trychineb Aberfan. Nododd y Rheolwyr Busnes eu bod yn fodlon ar y trefniadau arfaethedig.